

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 155

Rhif 13

Mawrth 31, 2022

50c.

Gwynos Pentref Cas-blaidd

Nos Sul, 13 Mawrth, daeth tua 60 o bentrefwyr Cas-blaidd ynghyd a ffrindiau o gymunedau cyfagos i gynnal gwynos yng ngolau kannwyll i gofio, gweddïo a sefyll gyda'n gilydd i gefnogi pobl Wcráin. Trefnydd y noson, y Parchg Geoffrey Eynon fu'n enau i groesawu pawb ac i lywyddu'r noson.

Cymerwyd at ddarlleniadau o'r ysgrifurth gan y Parchedigion Richard Davies a Martin Spain, arweiniwyd ni mewn gweddïo gan y Parchg Pat Rogers, cyn i'r Parchg Geraint Morse gyflwyno neges addas ar gyfer yr achlysur. Darllenodd y cynghorydd Michelle Bateman benillion roedd hi wedi ysgrifennu i gofio'r rheswm dros yr ymgynnull.

Rhannodd Mrs Wendy Raymond, prifathrawes ysgol gynradd y pentref, waith yr ysgol ar sut yr oeddent wedi dangos eu cefnogaeth wrth gasglu nwyddau i gynorthwyo trigolion Wcráin.

Yn ystod y noson, unwyd i ganu yn ddigyfeiliant, dau emyn, sef 'Efengyl Tangnefedd' a 'Make me a channel of your peace'.

Diolchodd y Parchg Geoffrey Eynon i bawb oedd wedi dod ynghyd, ac am eu haelioni tuag apêl arbennig i gofio pobl Wcráin. Cyflwynwyd y weddi i gloi, a'r fendith gan y Tad Liam Bradley.

Geoffrey Eynon



Dathlu daucanmlwyddiant

I nodi a dathlu daucanmlwyddiant geni Michael Daniel Jones (1822–98), yr Annibynnwr

tanbaid hwnnw a ddisgrifir fel 'Gwerinwr, Gwladgarwr, Gweledydd' a 'phrif sylfaenydd y Wladfa' ym Mhatagonia, y daeth tua 25 o bobl at ei gilydd y tu allan i'r Hen

Gapel yn Llanuwchllyn ar ddydd Mercher, 2 Mawrth.

Llywyddwyd y cyfarfod yn ddeheuig gan Glory Roberts o Waunfawr, ond sy'n wreiddiol o'r Wladfa, a hi a ddarllenodd yr amrywiol gyfarchion oedd wedi cyrraedd ar gyfer yr achlysur o'r Wladfa. Gosodwyd blodau hefyd ar fedd Michael D, un tusw ar gais cyfeillion yn y Wladfa, ac un arall gan ei ddisgynyddion yma yng Nghymru.

Crynodeb o'i fywyd

Yn dilyn hynny, cafwyd anerchiad byr gan y Dr Dafydd Tudur, Derwen-gam, yn amlinellu hanes bywyd, prif gyfraniadau a phwysigrwydd Michael D. Jones fel cymeriad o bwys yn hanes Cymru yn ogystal â'r Wladfa. Oni bai amdano ef, a chefnogaeth ariannol ei wraig, Anne, a'i fam yng nghyfraith, Mary, ni fyddai llong wedi bod ar gael i gludo'r teithwyr o Lerpwl i



Michael D. Jones
Llyfrgell Genedlaethol
Cymru



parhad ar dudalen 2

Dathlu daucanmlwyddiant – parhad

Batagonia. Pan sylweddolwyd na fyddai'r llong a drefnwyd yn wreiddiol, yr *Halton Castle*, ar gael, rhaid oedd i Michael D symud ar frys i ddod o hyd i long arall, a thalu amdani. Fis yn ddiweddarach na'r bwriad gwreiddiol, cychwynnodd y *Mimosa* ar ei thaith, a hynny ar 28 Mai 1865. Nododd R. G. Owen yn ei ysgrif yn y *Bywgraffiadur Cymreig* fod Michael D. Jones yn 'ymladdwr wrth natur' ac yn 'genedlaetholwr pybyr'. Yn ôl Dafydd Tudur, yr oedd ei safiad di-ildio dros gyfansoddiad Coleg yr Annibynwyr yn y Bala ym 'Mrwydr y Ddau Gyfansoddiad' yn nodweddiadol ohono, ond ei agwedd at angen mawr ei genedl yn annodweddiadol o feddylfryd ei gyd-Gymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Credai Michael D y dylai Cymru fod a'i Senedd a'i llywodraeth ei hun a hynny, yn anad dim, a sicrhodd iddo'r enw o fod yn 'dad y deffroad cenedlaethol Cymreig' (R. G. Owen). Ac eto, fel prif hyrwyddwr y syniad o Wladfa ym Mhatagonia y cofir amdano

yn bennaf heddiw, ac mae hynny, yn ôl Dafydd, yn sicr o fod yn arwain at ddarlun anghyflawn ohono.

Defosiwn

Yn dilyn yr anerchiad, arweinwyd y cwmni mewn gweddi gan y Parchg Carwyn Siddall, gweinidog eglwysi



Gofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch, sy'n cynnwys yr Hen Gapel, a chanwyd emyn gan Alwen Davies, un o ddiaciaiaid ac un o godwyr canu cynulleidfya yr

Hen Gapel. Diau y bydd darllenwyr *Y Tyst* yn cofio i gyfarfod arall gael ei gynnal uwchben bedd Michael D. Jones yn ôl yn 2015 cyn dyddiau'r pandemig, a

hynny i ddathlu pen-blwydd glaniad teithwyr y *Mimosa* ym Mhatagonia 150 o flynyddoedd ynghynt. Yr oedd yn gwbl addas, felly, fod yr ail gyfarfod hwn yn cael ei gynnal eleni er mwyn i'r cof am gyfraniad Michael D. Jones, ei fywyd, ei waith a'i arwyddocâd yn hanes Cymru, oroesi ymhellach a pharhau i fod yn rhan o dreftadaeth nid yn unig yr Annibynwyr, na thrigolion y Wladfa chwaith, ond cenedl y Cymry yn ei chyfanrwydd.



Nodyn: Cyfeirir at Michael Daniel Jones fel 'Michael D' yn yr adroddiad uchod ac ar lafar am mai 'Michael' oedd enw ei dad hefyd. Y mae beddau y ddau ochr yn ochr ym mynwent yr Hen Gapel; ar y dde, gwelir enw 'Michael Jones' ar y garreg, ac ar y chwith, 'Michael D. Jones'. Ni fwriedir unrhyw amarch wrth ddefnyddio'r talfyriad. Defnyddio 'Michael D' yw'r arferiad cyffredin er mwyn gwahaniaethu rhwng y tad a'r mab.

Geraint Tudur, Bangor

Cofio Ffrind: Florence John Cartref, Parc Morlais, Llangennech

'Ble mae Mrs. Florence John, yn byw 'ma?' Dyna gwestiwn a ofynnwyd i mi lawer gwaith wedi i mi ddod i fyw i'r ardal. A minnau'n ateb. 'Ewch i fyni'r ffordd ychydig a rownd y gornel acw, ac mi ddowch i'w chartref.' Ac yn gwbl briodol dyna oedd enw ei phalas hi ac Alan, Cartref, a hwnnw'n un clyd, cynnes, cysurus.

Dyna pam yr oedd yn gymaint o bleser i ni ymweld â'r ddau groesawgar a chyfeillgar mor aml. Eu hynawsedd hudolus. Onid oeddem yn byw yng ngolwg a golau ein gilydd? A hynny yn gysur o'r ddeutu. 'Wrth law o hyd ...' A'n teuluoedd wedi eu plethu ynghyd, er budd pob un ohonom, yn y pen draw. Cofiwn amdanynt i gyd yn eu colled a'u hiraeth, yn enwedig, Malcolm ac Eirion, y meibion a'u teuluoedd, ac Ireen, ei chwaer, a fu mor rاسول wrthi yn hydref ei llesgedd. Er y gwacter a adawodd ar ôl mewn cynifer o fröydd y

mae'n hatgofion hardd amdani, yn ein llenwi â'r 'hedd na wŷr y byd amdano.'

Cofio'r ferch ifanc o Gwm Gwendraeth, y fam ofalus ar ei haelwyd, y wraig gweinidog ddoeth, yr aelod eglwysig ffyddlon a gweithgar, a mwy. Bu'n gefn i Alan ym mhob gofalaeth. 'Dim ond y gorau oedd yn deilwng i Al.' Does dim syndod felly, mai dyna dderbyniodd hithau oddi ar ddwylo ei hanwyliaid agosaf pan oedd angen. Fel y nyrs fyd-enwog o'r un enw, roedd iddi hithau ei llusern a'i thosturi, a pheth o swyn yr eos hwyrnosol. Ac am ei syndod, wel, syndod mewn sandalau oedd, tawel, tyner a theg:

Mi gofiwn drem ei gofal,
a doniau chwaer dyner a dyfal.
Mam â'i cham mewn oes ar chwâl
yn syndod i'r ddwy sandal.

Gerald Jones

Gwerthfawrogiad

Dymuna Mrs Ann Sewell a'r teulu ddiolch yn fawr am y rhoddion o dros £1,000 tuag at BHF (British Heart Foundation) er cof am y diweddar Barchedig Meirion Sewell.

Diolch yn fawr hefyd i gapel Pen-y-graig am yr oedfa arbennig a gynhaliwyd er cof amdano ar fore Sul, 13 Mawrth dan ofal y Parchg Jeff Williams ag aelodau'r capel.

Yr Adran Gydenwadol

‘Ni wnaeth ddim drwg i mi’ – Deddf Newydd yn Gwahardd Cosbi Plant yn Gorfforol



Ar 21 Mawrth 2022, ar ôl ymgyrch hir, ymunodd Cymru â 60 o wledydd i wneud pob math o gosb gorfforol i blant, fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd, yn anghyfreithlon. Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 yn sicrhau'r un amddiffyniad rhag cosb gorfforol i blant ag sydd gan oedolion eisoes. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi'n glir fod gan blant yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, anaf a cham-drin, ac mae hyn yn cynnwys cosb gorfforol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers tro i hyrwyddo hawliau plant ac efallai y bydd rhai pobl, ac yn sicr llawer o blant, yn synnu nad oedd ganddynt amddiffyniad cyfreithiol i fod yn rhydd o bob math o drais corfforol cyn hyn.

Pan oeddwn i'n blentyn, roedd y gansen yn fygythiad cyffredin mewn ysgolion ac roedd cosb gorfforol yn arferol mewn llawer o gartrefi. Mae rhai'n dweud: "Ni wnaeth unrhyw niwed i mi erioed" neu "Roedd plant yn ymddwyn yn llawer gwell bryd hynny oherwydd hyn". Ystyriwch: fel oedolion, rydym yn mynnu'r hawl i fod yn rhydd o drais, ac nid ydym yn derbyn trais fel ffordd dderbyniol o ddelio ag anghytundeb. Rydym yn dweud wrth blant nad yw'n dderbyniol iddynt daro na chicio'i gilydd ac y dylent ddatrys anghydfod mewn

modd arall. Mae hi'n neges ddryslyd ac anghyson i blant os ydynt, ochr yn ochr â'r geiriau hyn, yn derbyn cosb gorfforol er mwyn dysgu gwersi iddynt. Mae cosbi plant yn gorfforol mewn ysgolion wedi bod yn anghyfreithlon ers dros 20 mlynedd ond roedd y cymal 'amddiffyniad cosb resymol' wedi gadael man aneglur, gan ganiatáu i rieni gyfiawnhau cosbi'n gorfforol. O'r diwedd, mae'n glir yng Nghymru fod y gyfraith yn amddiffyn plant rhag trais corfforol yn yr un modd ag oedolion.

Rwyf newydd dreulio rhai dyddiau yng nghwmni dau o'm hwyron bach ac fe'm hatgoffwyd faint o ymyriadau corfforol sy'n angenrheidiol bob dydd i gadw plant bach yn ddiogel, i'w hatal rhag anafu eu hunain neu eraill, a'u helpu i ddatblygu a dysgu. Cwtshys, golchi a gwisgo, eu hatal rhag rhedeg i'r lôn, stopio nhw gyffwrdd â rhywbeth poeth ac ati – nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal hyn o gwbl, dim ond rhoi terfyn ar gosb gorfforol. Yn sicr, nid yw'r ffaith fod cosb gorfforol yn anghyfreithlon yn golygu bod disgyblu plentyn yn anghyfreithlon – i'r gwrthwyneb yn llwyr. Yn y cyfnod cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, mae wedi bod yn dda gweld yr ymgyrch sy'n trafod ac yn dangos llawer o ddulliau rhianta positif, disgyblu cadarnhaol ac yn cynnig ffynonellau cymorth. Does dim dwywaith nad yw magu plant yn gallu

bod yn heriol iawn ar brydiau ac mae'r wefan Magu Plant. [Rhowch Amser Iddo](#) yn parhau i gynnig llawer o gymorth ar gyfer magu plant o bob oed.

Rwy'n tybio y gofynnwyd i mi ysgrifennu'r erthygl hon oherwydd fy rôl fel Swyddog Diogelu'r Panel Diogelu Cydenwadol. Yn anffodus, rwyf yn dod ar draws sefyllfaoedd lle mae plant yn cael eu brifo neu eu cam-drin, a hynny efallai wedi dechrau, neu wedi'i gyfiawnhau, fel ffordd o ddisgyblu. Yr wyf hefyd yn ymwybodol o ddatgeliadau o drais a ddigwyddodd flynyddoedd lawer yn ôl. Mae'r clwyfau emosiynol yn parhau ymhell ar ôl i greithiau corfforol diflannu; mae'r ymddiriedaeth wedi'i thorri a pherthnasoedd wedi'u niweidio am byth.

Efallai y bydd rhai'n dal i ddweud, 'Wnaeth smacio ddim drwg i mi', ond mewn cymdeithas fodern yn 2022 mae'r eglurder cyfreithiol hwn yn angenrheidiol i warchod pawb ac i ddatgan yn glir ei bod hi'n annerbyniol i ddefnyddio cosb gorfforol yn erbyn oedolion, oedolion bregus ac, o'r diwedd, yn erbyn plant hefyd.

Julie Edwards
Swyddog Diogelu a Hyfforddiant
Y Panel Diogelu Cydenwadol

Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Gorffennaf 2022: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru am 12 o'r gloch bawn Llun, 4 Ebrill, yng Nghanolfan y CCRW ar Faes y Sioe, i drafod cenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y sioe eleni.

Wedi gohirio'r digwyddiad am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n gyffrous dechrau cynllunio eto ar gyfer yr sioe, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir y sioe yn Llanelwedd ar gyrion Llanfair-ym-Muallt rhwng 18 a 21



Gorffennaf, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, ac i drafod pa weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd yn y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Darperir te a choffi – dewch â'ch cinio gyda chi a chawn drafod dros amser cinio dydd Llun.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aleddavies@cytun.cymru.

Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, Tregaron, 2022: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru am 7.00y.h. nos Lun, 4 Ebrill, yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes yr Eisteddfod eleni.

A'r Eisteddfod wedi'i gohirio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n gyffrous dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod eleni yn Nhregaron rhwng 30 Gorffennaf a 6 Awst,



ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned sylweddol yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, ac i drafod pa weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd yn y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aleddavies@cytun.cymru.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 3 Ebrill, am 7:30yh (ailldarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)

Ni cheir rhaglen am 7:30yh yr wythnos hon oherwydd rownd derfynol *Côr Cymru*. Bydd y rhaglen nesaf yn cael ei darlledu ar Ebrill 10fed ac yn nodi Sul y Blodau. Mi fydd Nia yn Nhyddewi yn cwrrdd â'r cyn Esgob, y Gwir Barchedig Wyn Evans, a chawn glywed cyfweiliad Cymraeg cyntaf y Parch Kate Bottley, un o gyflwynwyr y rhaglen *Songs of Praise*.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 3 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp

Mae R. Alun Evans yn parhau â'i gyfres ar amrywiol themâu. Ffyddlondeb yw thema'r emynau yn rhaglen yr wythnos hon.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 3 Ebrill, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Delyth Wilson, Bro Gwendraeth.

Myfyrdod y Grawys

Cyfres o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

Grawys 5

Darllen: Salm 32.6–11



Llun: Jairo/flickr - pelerinon

Am hynny fe weddïa pob un ffyddlon arnat ti yn dydd cyfyngder, a phan ddaw llifeiriant o ddyfroedd mawr, ni fyddant yn cyrraedd ato ef. Yr wyt ti'n gysgod i mi, cedwi fi rhag cyfyngder; amgylchi fi â chaneuon gwaredigaeth. Sela. Hyfforddai di a'th ddysgu yn y ffordd a gymeri; fe gadwaf fy ngolwg arnat. Paid â bod fel march neu ful direswm y mae'n rhaid wrth ffrwyn a genfa i'w dofi cyn y dônt atat. Daw poenau lawer i'r drygionus; ond am y sawl sy'n ymddiried yn yr ARGLWYDD. Llawenhewch yn yr ARGLWYDD, a gorfoleddwch, rai cyfiawn; canwch yn uchel, pob un o galon gywir.

1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

*Pryd cawsoch chi brofiad o gariad diysgog Duw? Sut medrwn ni ddangos i eraill ffyddlondeb a chariad Duw o'r tu mewn i'n bywydau a'n harferion Cristnogol ein hunain?

*Sut mae hanes marwolaeth ac atgyfodiad y Santes Gwenffrewi yn darlunio geiriau'r Salmydd, 'cedwi fi rhag cyfyngder; amgylchi fi â chaneuon gwaredigaeth'?

2 Rhywbeth i adfyfrio arno

*Yn eich bywyd Cristnogol, o ble'r ydych chi yn derbyn y rhan fwyaf o'ch dysgeidiaeth a'ch cyngor? Ac ym mhwy yr ydych yn

ymddiried fwyaf i ddysgu Cristnogion am y ffydd? Petai rhywun yn dod atoch ac eisïau dysgu am y ffydd Gristnogol, beth fyddai gennych chi i'w gynnig?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae Gwenffrewi yn treulio amser yn siarad â'i hewythr a'i mentor ysbrydol, Sant Beuno. Ar ôl iddi ymgymryd â'r bywyd crefyddol, mae'n dal i gyfathrebu ag ef, yn anfon eitemau ato ac yn gweddïo drosto. Mae hyn yn awgrymu fod athrawon y ffydd hefyd angen help a chefnogaeth. Sut gallwn ni gefnogi clerigwyr, esgobion, henaduriaid a holl athrawon y ffydd? A beth mae modd iddynt hwy ddysgu gennym ni?

3 Rhywbeth i'w wneud

*Mae'r Salmydd yn tynnu sylw at rym gweddi a ffyddlondeb Duw wrth ymateb i weddi. Y Grawys hwn, dewch o hyd i UN peth y gallech wneud yn eich eglwys fyddai'n helpu pobl i feddwl am rym gweddi. Yn dibynnu ar draddodiad eich eglwys, gallech wneud cardiau gweddi i bobl eu cymryd neu eu rhoi i gymdogion a chyfeillion; gallech annog pobl i oleuo kannwyll, neu fe allech gael plant i baentio cerrig neu dynnu lluniau sy'n dweud, 'Fe wnes i weddïo am/dros ...' ar un ochr a llun o'r bwriad ar yr ochr arall. Gellid ymgorffori'r cerrig neu'r lluniau yn nes ymlaen mewn Gardd y Pasg neu arddangosfa.

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae grym gweddi yn glir iawn, nid yn unig pan fo Sant Beuno yn gweddïo am ei hadferiad, ond yn ei bywyd wedi hynny mewn urdd grefyddol. Yn eich bywyd eich hun, neu yn eich eglwys, dewch o hyd i UN peth y gallech wneud i ddangos i eraill fwy o rym gweddi, gan gyfeirio'n ôl, efallai, at bwysigrwydd gweddi yn hanes Gwenffrewi. Sut gallech chi wneud mwy i helpu pobl i weddïo yn fwy hyderus ac yn amlach?

4 Treiddio'n Ddyfnach

*Mae'r Salmydd yn gofyn i ni adfyfrio'n ddyfnach am ein perthynas â Duw a phan fyddwn dan straen ac yn pryderu am yr hyn all ddigwydd, y gallwn ymddiried yn ffyddlondeb Duw. Mae'r adfyfrio hwn a'r ddealltwriaeth trwy weddi a myfyrio yn arwain yn y pen draw at ymchwylld o fawl llawen. A ydym weithiau yn anghofio offrymu ein mawl llawen i'r Arglwydd a diolch i'r Iesu am bopeth a wnaeth Duw?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae traddodiad fod Beuno Sant wedi eistedd ar graig ger y ffynnon newydd ac addo yn enw Duw "y byddai pwy bynnag a fydd yn y fan honno yn gofyn deirgwaith am ryw beth gan Dduw yn enw'r Santes Gwenffrewi yn derbyn y gras y gofynnwyd amdano petai er lles ei enaid". Yn ein bywydau beunyddiol, pa mor aml y byddwch chi'n talu sylw i'r hyn sydd ei angen 'er lles eich enaid'? O ble cewch chi faeth ysbrydol felly, a phwy allai eich helpu i wybod beth yw'r pethau da hynny?

5 Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,
Diolchwn i ti mai ti yw'r Duw nad yw'n ildio fyth;
y gallwn ymddiried yn llwyr ynot.
Diolchwn i ti am y gallwn droi atat ti o hyd yn ein trallod;
a'th fod yn ein cadw fel y ceidw'r iâr ei chywion dan ei haden.
Boed i ni ymddiried yn wastad yn dy gariad diysgog
a dod atat ti mewn llawenydd a mawl.
Amen.



Llun: Emilian Robert Vical/flickr

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Blwyddyn ers colli Euryn Ogwen

Mae ei greadigrwydd, ei afiaith a'i frwdfrydedd yn dal i ysbrydoli. Yr wythnos hon rwyf wedi rhyddhau ei emyn 'Dy Enfys Di' a gyfansoddwyd ganddo yn 2020, a'r dôn gen i er cof amdano. Byddai Euryn eisiau inni gyd, ynghanol helbulon y byd, i barhau i weld enfys cariad Duw a'r gobaith sydd i'w gael drwy ffydd. Mae'r harmoni posibl rhyngom fel pobl, yn ein heglwys i ac yn ein byd, yn rymusach wrth inni arddel ein bod yn gynulleidfa sydd â'r gallu i 'agor drysau a rhyddhau yr egni na allwn ei gynhyrchu ar wahân'. Roedd Euryn yn fonwr oedd yn credu mewn cymdeithas, yn cydio yn y cadarnhaol, ac yn pwysu ar y posibiladau ymhob peth bob amser, hyd yn oed mewn trallod ac ar ddiwedd ei fywyd ar y ddaear. Gadewch i ninnau barhau mewn brwdfrydedd dros achos Crist; gyda diolch i Euryn am ei arweiniad fel cyfaill annwyl i nifer, fel Cristion o argyhoeddiad, ac fel Cyfryngwr i gariad real Duw yn ein byd sy'n parhau.

Sian Meinir

Gellir gwyllo'r emyn ar sianel YouTube Sian Meinir. Dyma'r ddolen: <https://youtu.be/SaZ7hz28UqY>

Dy Enfys Di

Pan fydd geiriau'n clecian drwy'r ymennydd
Ac atsain y canrifoedd yn y co',
Rhyfeddaf at y grym a'r egni newydd
Sy'n cael ei greu o'u cwmmpas nhw bob tro.

Pan glywaf felodi yn llenwi 'nghlustiau
Mae'n rhoi adenydd ar fy enaid i
A chodaf uwch ddifflastod llwyd ein dyddiau,
Yn nes at lle rwy'n tybio fyddet Ti.

Ond pan ddêl cynulleidfa i addoli
Bydd harmonïau grymus yn y gân
Yn agor drysau a rhyddhau yr egni
Na allem ei gynhyrchu ar wahân.

A thrwy y glaw yr heulwen deimlwn ni
Ac fe gawn eto weld dy enfys Di.

Euryn Ogwen

Myfyrdod y Pasg: y bedd gwag

Dyma gychwyn ar fyfyrdod am ddigwyddiadau rhyfeddol y Pasg a fydd yn ymddangos mewn tair rhan yn ystod yr wythnosau nesaf.

Nid oes dim byd gwell i godi'n calon na'r dydd yn gwawrio. Roedd y gwawrio ar fore'r Trydydd Dydd yn rhywbeth arbennig iawn. Yn ystod ei weinidogaeth fawr cafodd llawer y fraint o weld Iesu a llawer y fraint o siarad ag Iesu. Dymunodd eraill ei weld, fel Sacheus, yn ceisio gweld yr Iesu. Cofiw'n i'r Groegiaid ddod at Philip yn ystod yr ŵyl yn Jerwsalem a dweud: 'Syr, ni a ewyllysiem weld yr Iesu.' Soniwn yma am weld gwahanol, gweld Iesu wedi i'w fywyd daearol ddirwyn i ben, sef ymddangosiadau Iesu. Ceisiwn danlinellu hanfod y gweld, a mwy na hynny, hanfod y gweld o safbwynt ein tystiolaeth ni heddiw.

Y Groes a'r Atgyfodiad

Bu Iesu mewn brwydr fawr am dri o'r gloch y prynhawn bythgofiadwy hwnnw. Roedd yn brynhawn tywyll ar lawer ystyr a'r weinidogaeth fawr, gyfoethog wedi dod i'w therfyn ar ddarn o dir garw tu fas i fur y dref. Newidiwyd hyn yn llwyr gan ymddangosiadau Crist, ymddangosiad oedd ac sydd yn dystiolaeth, y dystiolaeth anhygoel fod Iesu'n fyw. Onid dyma holl ystyr ac arwyddocâd y Pasg, ein bod yn gweld heibio i'r Groes, heibio i'r bedd gwag – 'nid yw ef yma, wele cyfododd.'

Sinigiaeth

Nid yw credu yn yr Atgyfodiad yn hawdd heddiw. Y mae tymheredd ein cyfnod ni yn ei sinigiaeth a'i besimistiaeth yn fwy cydnaws â thrasiedi prynhawn y Groglith na buddugoliaeth y Trydydd Dydd. Onid haws o lawer credu yn y pwerau dieflig a groeshoeliodd y Crist nag yn y gallu achubol â'i cyfododd. 'Os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw ein pregethu ni a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwi.' (Cor. 15.14). Onid mwy dilys a mwy buddiol yw troi at eiriau'r apostol Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid: 'A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth i chwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân yn gorlifo â gobaith.' (Rhuf. 15.13). Dyma ymddangosiad Crist i Paul.

Efe a gyfododd yn wir

Crist yw ein Pasg ni. Crist gyfododd -



dyma'r newydd syfrdanol a gyhoeddwyd ar y Sul Pasg cyntaf. Onid yw'n atseinio byth ers hynny, i ni, ei ddilynwyr. Daw gwir wefr y newydd pan ddown ninnau wyneb yn wyneb â'r Crist Atgyfodedig. Gallwn fod fel gwrandaewr Llythyr Pedr, ar wasgar yn ein heglwys, yng nghanol anawsterau bywyd, ansicrwydd a cholledion y ddwy flynedd olaf, ond atseiniwn yr Amen a'r Haleliwia – Crist gyfododd! Gallwn fod yn ddigalon fel y ddau ar y ffordd i Emaus, yn teimlo fod ein gobaith wedi ei ladrata oddi arnom. Gallwn gau ein hunain tu ôl i ddrysau ein hofnau yn yr oruwch ystafell. Efallai fel cydweithwyr heb ei adnabod ar unwaith ond ein calonnau yn llosgi wrth iddo ddatguddio'i hun ar doriad y bara. Fe ddaw, efallai yn annisgwyl gan dorri drwy'r rhwystrau a'r anawsterau a'r anghrediniaeth a dangos i ni ei glwyfau. Ffrwyth tangnefedd deinamig y Crist: 'Yr wyf yn gadael i chwi fy nhangnefedd'. Y Prifathro Pennar Davies a ddywedodd: 'Mae yna ormod o Gristnogion ffurfiol, confensiynol, Laodiceaidd sydd wedi cau'r drws yr erbyn yr Un Atgyfodedig a fyn gynnig i ni'r pethau nid ydynt sydd yn diddymu'r pethau sydd'.

Yr oeddent wedi ei golli ar y groes ac i bob golwg allanol yr oedd ef wedi colli'r dydd - yr oedd y Bugail wedi ei daro a defaid y praidd wedi eu gwasgaru. Roedd yna dystiolaeth o fedd gwag, ond gallai rhywun fod wedi lladrata corff Iesu. Y prawf terfynol oedd ei ymddangosiad - 'Myfi fy hun ydyw.' Nid dychymyg y rhain a greodd yr Atgyfodiad, nid eu dychymyg, ond yr Ymddangosiad.

Dyfnallt Morlais Owen

(Ymddengys ail ran y myfyrdod hwn yn rhifyn nesaf o'r Tyst)

Barn Annibynnol

Colli

Fel teulu, 'dan ni'n gwybod sut y mae bywyd yn medru cael ei droi ar ei ben i lawr ar amrantiad. Dros flwyddyn ôl erbyn hyn bu farw fy ngŵr, Lloyd, yn sydyn a dirybudd o drawiad ar y galon. Yn ogystal â cholli gŵr a thad o'n teulu ni, bu'n rhaid symud o'n cartref a dechrau eto, a thydi hynny ddim wedi bod yn hawdd. Er mor boenus fu'r profiad, bu cariad a chymorth ffyddlon teulu, ffrindiau a theulu'r Eglwys yn gysur ac yn gymorth mawr i ni ddal ati.

Wrth deithio o Landdaniel, Môn i Fangor dros y Fenai, gwn bod tirlun hardd a heddychlon glannau'r Fenai wedi chwarae ei ran yn y cysur a deimlwn. Mae'r mwynhad nawr o fedru gwneud pethau cyffredin fel mynd am baned neu bryd o fwyd, gweld ffilm neu fynd i gyngerdd i gyd yn medru bod yn falm.

Dinistr llwyr

Beth dwi'n methu ei ddychmygu ydy'r profiad o golli rhywun annwyl yn yr Uffern ladd a welwn yn Wcráin lle mae pobl nid yn unig yn colli cymar, rhiant neu blentyn ond yn colli'r cyfan arall hefyd – cartref, gwaith, cymdogion a chymuned. Eu tirlun ydy galanas tai a fflatiau chwillfriu yn mygu. Mae llawer hyd yn oed yn colli eu mamwlad wrth orfod ffoi dros y ffin.



Salm 31

Gwyddom fod 'na rai, yn Iddewon a Christnogion, ynghudd rhag y taflegrau

mewn tai a selerydd sy'n adrodd Salm 31 bob nos. Yn y salm honno mae mawl i Dduw a chri o'r galon yn cydfyw fel y maen nhw bob amser mewn ffydd go iawn. Mae'r salm hefyd yn cynnwys geiriau dirdynol lesu ar y Groes wrth farw: 'I'th ddwylo di y gorchmynaf fy ysbryd', sy'n weddi o ymddiriedaeth lwyr pan mae pethau wedi mynd i'r pen. Diolch amdani.

Croesawu

Edrychwn ymlaen i groesawu ffoaduriaid o Wcráin yma i'r gogledd-orllewin cyn hir a rhannu ein cartrefi a'n bwyd, ein cyfleusterau a'n caffis a gogoniant a heddwch y tirlun gyda nhw. Yn y cyfamser, fe rannwn ni yng ngeiriau eu salm nhw, Salm 31 a gweddio drostyn nhw gyda dyfalbarhad ac ymddiriedaeth yn y Duw sy'n gwrandao a'r Crist sy'n achub.

Casi Jones

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwdd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

TRAFOD EGLWYSI DEMENTIA-GYFEILLGAR MEWN CWRDD CHWARTER

Dau Emlyn oedd y siaradwyr gwadd yng nghyfarfod hwyrol (dros Zoom) Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin ar 10 Mawrth. Mae un yn weithgar iawn gyda grŵp dementia lleol yng Nghaerfyrddin, a'r llall yn arwain ar lunio strategaeth Undeb yr Annibynwyr i annog a galluogi eglwysi i fod yn dementia-gyfeillgar.



Cafwyd gair o brofiad personol gan y Cynghorydd Emlyn Schiavone sy'n aelod o bwyllgor lleol sy'n helpu pobl sy'n byw gyda dementia yn ardal Caerfyrddin. Dechreuodd ei gysylltiad â'r afiechyd pan oedd yn ddyn ifanc 24 mlwydd oed ac yn gweithio yn ysbyty Dewi Sant. Yna, tua 25 mlynedd yn ddiweddarach, gwelodd y cyflwr yn effeithio ar ei fam, ac yna ar ei dad pan oeddent yn eu 90au.

Yn sgil y profiadau hynny, flynyddoedd yn ôl bellach, roedd yn teimlo'r awydd i helpu pobl sydd â dementia yn lleol. Mae 5 prif

neges i'w cyflwyno - nid yw dementia yn rhan naturiol o heneiddio; clefyd ar yr ymennydd yw'r afiechyd; nid yw dementia yn golygu colli cof yn unig; gellir byw yn dda gyda dementia, a dylai pawb gofio fod mwy i berson na'r afiechyd ei hun. Mae angen eisiau ceisio cadw pobl yn iach, yn gorfforol, yn feddyliol, ac yn gymdeithasol. Bu Emlyn yn Abertawe yn gweld y gweithgareddau a gyflawnir yno. Yng Nghaerfyrddin mae canolfan Hafan Glyd ynghanol y dref, yn cynnig help i'r rhai sydd yn byw gyda'r afiechyd, a'u gofalu. Yr her i ni yw cadw'n bositif, meddai Emlyn, a gwerthfawrogi'r baich sydd ar y gofaluwr.

Llunio strategaeth yr Annibynwyr

Yr ail siaradwr oedd Emlyn Davies, cadeirydd Adran Dinasyddiaeth Gristnogol Cyngor yr Undeb, sydd hefyd yn un o bedwar aelod o Gyfundeb Dwyrain Morgannwg sy'n ceisio ffyrdd o helpu'r rhai sy'n byw gyda dementia a'u gofalu. Mae angen deall anghenion y bobl, a sut y gallwn ni fel eglwysi helpu i ddiwallu eu hanghenion ysbrydol, meddai. Mae dros 100 math o ddementia i'w cael, ac nid yw'n effeithio ar bawb yr un ffordd. Mae'r pedwar aelod yn y gweithgor (Sian Meinir, cantores; Rhodri-Gwynn Jones, cyn-weithiwr llywodraeth leol; Gwilym Huws, cyn-ddarlithydd llyfrgellyddiaeth; ac Emlyn Davies ei hun, o fyd y cyfryngau) wrthi'n llunio pecyn i bob eglwys i'w cynorthwyo'n ymarferol wrth geisio helpu'r rhai sy'n cael eu heffeithio. Rhennir y ffeil i saith rhan:

- canllawiau gofaluwr, sydd mas o brint ar hyn o bryd, ond fydd ar wefan yr Undeb, ac yn cynnwys nifer o ddolenni

- gwahoddir pob eglwys i edrych pa adnoddau sydd gyda hwy eisoes i barchu, deall, a chefnogi pobl
- diwinyddiaeth yr eglwys ddementia-gyfeillgar
- patrymau o oedfaon dementia-gyfeillgar
- grym cerddoriaeth, gan ddefnyddio crynoddsgiau a cherddoriaeth fyw
- bod yn ffrindiau dementia. Cynigir cwrw tri chwarter awr o hyd i helpu paratoi at ymweld â chartrefi, gan awgrymu bod angen o leiaf un hyrwyddwr ymhob eglwys. Nodwyd bod prinder Cymry Cymraeg yn gwneud hyn
- manylion am fideo'r Annibynwyr

Pwysleisiwyd fod angen i eglwysi ddefnyddio'r pecyn hwn, gan fydd un o bob tri, cyn bo hir, yn mynd i ofalu am berson sy'n byw gyda'r cyflwr; ac un o bob 14 person dros 65 mlwydd oed yn mynd i fod yn byw gyda'r cyflwr.

Yn y drafodaeth a ddilynodd nodwyd bod gwefan y Gwasanaeth Iechyd yn gallu bod o help gan ei fod yn sôn am ddementia a'r effeithiau, yn ogystal â thriniaethau amgen. Pwysleisiwyd hefyd bod y capel yn lle diogel i bobl sy'n byw â dementia. Dylid eu galluogi i gyfrannu yn ôl yr hyn a allant. Nid oes angen iddynt gadw draw, er bod hynny fyny i'r unigolyn. Dylem gofio y gallwn ni fynd ag oedfa iddynt hwy, drwy gyfrwng CD neu fideo.

Cadeiriwyd y sesiwn gan y Parchg Tom Evans, a diolchwyd i bawb gan y Parchg Beti-Wyn James.

Joan Thomas



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Dydd Gweddi'r Byd Gorllewin Ceredigion

Cynhaliwyd oedfa Weddi'r Byd ar ddechrau mis Mawrth gan aelodau eglwysi'r Parchedig Carys Ann, sef Bryngwenith, Henllan, Castellnewydd Emlyn; Glynarthen a Brynmoriah, Brynhoffnant. Lluniwyd yr oedfa eleni gan Ferched Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yr oedd yn addas a phwrpasol iawn.

Y testun oedd, 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' o Jeremeia 29, 1-14. Bu'r gwasanaeth yn amserol yn dilyn digwyddiadau brawychus yn Wcráin. Yn ystod yr oedfa darllenwyd y geiriau, 'Yn aml iawn, rydyn ni'n methu gofalu am fyd Duw a phobl Dduw. Gofynnwn am faddeuant Duw am y ffaeledau hyn.' Bu'r cwbl yn fendith. Gwerthfawrogrir y gwasanaeth gyda diolch mawr i bwyllgor Dydd Gweddi y Byd am eu holl waith a'u dyfalbarhad.




Carys Ann

Capel Brynmoriah Brynhoffnant



Capel Bryngwenith Henllan



...heddiw, tanllyd saethau yma,
'fory, tanllyd saethau draw;
minnau'n gorfod aros yno
yn y canol, rhwng y tân;
tyrd, fy Nuw, a gwêl f'amgylchiad,
yn dy allu tyrd ymla'n.

William Williams